# DEDDF TAI (CYMRU) 2014

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 2 Digartrefedd

***Adran 94 - Gwarchod eiddo: darpariaethau atodol***

179. Mae is-adran (1) yn rhoi i awdurdod lleol b#er i fynd i fangre lle y mae’r ceisydd yn preswylio fel arfer neu a oedd yn breswylfa arferol i’r ceisydd ddiwethaf wrth gymryd camau i warchod eiddo personol ceisydd. Mae’n caniatáu hefyd i awdurdod ymdrin â’r eiddo personol mewn unrhyw ffordd sy’n rhesymol angenrheidiol.

180. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i’r swyddog sydd wedi ei awdurdodi i fynd i fangre ddarparu awdurdodiad ysgrifenedig, os gofynnir iddo wneud hynny, tra bo is-adran (3) yn nodi beth sy’n digwydd os yw person yn rhwystro’r swyddog wrth arfer y p#er. Mae’r is-adrannau eraill yn darparu ar gyfer trosglwyddo’r eiddo i leoliad a enwebir gan y ceisydd, pryd y bydd y ddyletswydd yn dod i ben, a’r hysbysiadau y mae’n rhaid eu rhoi.